# Osi Rhys Osmond Art Prize 2022

Osi Rhys Osmond, who lived in Llansteffan for 30 years before his death in 2015, was an internationally known artist, broadcaster, teacher and author. An Honorary member of the Gorsedd of Bards, one of his paintings was given as a gift from Wales to the Flemish parliament. Osi was an inspirational man who enthused all who met him with his energy and his love for individual human endeavour and achievement.

This Art Competition, to commemorate Osi's name, has been arranged in conjunction with the Carmarthen School of Art, where Osi was for many years head of the Foundation Course. Entries were encouraged from all current students of the college. By exhibiting the work in the village it will promote arts and culture locally, while providing an opportunity for the artists to have their work appreciated by a wider public.

The theme chosen for this year's competition is "We talk, think, dream and stare" which is a line taken from a poem by Osi called "Correspondence" that is reproduced below.

# Cystadleuaeth Gelf Osi Rhys Osmond 2022

*Roedd Osi Rhys Osmond, un o drigolion pentre Llansteffan am 30 mlynedd cyn iddo farw yn 2015, yn adnabyddus fel arlunydd, darlledwr, athro ac awdur. Yn Aelod Anrhydeddus o Orsedd y Beirdd, cyflwynwyd un o'i luniau yn rhodd gan Senedd Cymru i senedd y Ffleminiaid. Roedd yn ddyn ysbrydoledig yn tanio brwdfrydedd pawb a fyddai yn dod ar ei draws gyda'i egni a'i gariad am ymdrech a chyflawniad unigolion.*

*Trefnwyd y Gystadleuaeth Gelf hon ar y cyd gydag Ysgol Gelf Sir Gâr fel teyrnged i Osi gan ei fod yn bennaeth am flynyddoedd lawer ar y Cwrs Sylfaen.  Agorwyd y gystadleuaeth i holl fyfyrwyr presennol y coleg. Bydd arddangos y gwaith yn y pentref yn hybu'r celfyddydau a diwylliant yn lleol tra hefyd yn creu'r cyfle i gynulleidfa ehangach gwerthfawrogi talentau'r myfyrwyr.*

*Gwahoddwyd gwaith celf ar y thema "We talk, think, dream and stare", llinell gan Osi yn ei gerdd "Correspondence" sy'n ymddangos isod.*

## Correspondence

I cherish those unconsidered moments
When we find ourselves unaware
Between things
Times of completion or of waiting
Rising, dressing, gathering, resting
We pause in disregarded places
Posed in unexpected correspondence
Irregular, tangential
Sitting, lying, walking
Strangely unaligned for customary communicate
Then, unconsciously between each other
But as one
We talk, think, dream and stare
The world seems vacated
There is no beginning and no end
Time has vanished
There is only us
And we, are one.

*Osi Rhys Osmond*

**Entry 1**

Name: Lesley Morris

Title of work: ‘Talk, think, dream, stare’

Medium: Acrylic

Artist’s Statement:
Through self portraiture, I am exploring the reality and complexities of my interior world. This involves delving beneath my skin, endeavouring to express the essence of a realm that has always been my escape and sanctuary, somewhere where I have always been able to be ‘myself’. Inevitably this has involved a lot of ‘talking, thinking, dreaming and staring’ so Osi’s words really resonate. My recent work has been in charcoal and print but I am really struck by Osi’s frequent use of Cobalt Blue. He has reminded me what an amazing colour it is and tempted me to experiment with it.

Work not for sale

Contact for Lesley: lellym51@gmail.com

**Entry 2**

Name: Laluna Dale-Thomas

Title of work: ‘おいしそう’ (oishi sou), 'looks delicious’

Medium: Collage & mixed media

Artist’s Statement:
My piece is about connecting back to my Japanese heritage. One thing that stood out for me was that food is a big part of cultures as many recipes have been passed down through many generations. Food brings people together, it strengthens bonds between individuals, communities and even countries. The language barrier between me and my Grandparents can be difficult but cooking together helps us bond without needing words.

I created this book as I wanted to preserve the recipes that have been passed down to my Mother as well as document her journey to Wales.

Work not for sale
Contact for Laluna: dt.laluna@gmail.com

**Entry 3**

Name: Cadi Vobe

Title of work: 'Hiraeth'

Medium: Mixed media on laser cut plywood

Artist's Statement:
Our heritage provides us with clues to our past and helps to show how our society is evolving. Often people find themselves undereducated about their heritage (myself included), making it a personal self understanding and awareness journey. I wanted to combine the tangible and the intangible through this topic as I believe both are equally as important. The tangible includes objects that are inherited, landscapes, spaces and places that have been important in my family's upbringing or my own. The intangible also fuels our heritage and in this space are pride and hiraeth. This space also includes sense of community, the Welsh language, traditions and knowledge passed down. These combined fuel character, a distinctiveness to a place, region or community and hence provide us with a sense of identity.

Plate £25
Cups £15 each

Contact: cadivobe@icloud.com

**Entry 4**

Name: Tim Baynes

Title of work: ‘The Daily Flood’

Medium: Monoprint on Hosho paper

Artist’s Statement:
Osi Rhys Osmond speaks of a land that is ‘not earth, air or water but an amalgam of all three’ *. Estuaryland, with its continual shifts is the compulsion to create. A realm shared by Llansteffan and Laugharne .

The Greek word for drawing and writing is the same - graphe. Recently Hilary allowed me to dive into his sketchbooks. Inspired by Osi’s picture-word amalgam, my work, I hope, evidences a deep love and desire to celebrate. He would be eighty this year, still on the headlands with brush and paint, his jawline set in vitality.

- In Clare Sturges’ film *My Brief Eternity* documenting the making of the last work of Osi Rhys Osmond, created for Maggie’s cancer charity.

£75

Contact: timbayneslond@gmail.com

**Entry 5**

Name: Ryan Anthony Woods

Title of work: ‘Fantasy from reality I’

Medium: Digital photograph

Artist’s Statement:
My final year project is titled ‘Womanface’. The project is about exploring my other persona as a woman, connecting with my feminine side to provide a deeper

understanding of why we, as a society, are restricted to the assigned gender we are born to. I am interested in the constraint that society has placed upon male, female and other genders to behave and present themselves in a certain way.

The aim of the project is to address this social filter and to promote all genders, regardless of sex, should be free to dress the way they want - without ridicule, torment or hate being directed towards them.

‘I just love dressing up in everything a man is supposed not to be. In all that vulnerability. Sweetness. Preciousness and impracticality’ Grayson Perry

£95

Contact: ryan.woods501@gmail.com

**Entry 6**

Name: Chelsea Reilly

Title of work: ‘My mind map, a neurological underpinning’

Medium: Hand papercut illustration

Artist’s Statement:
Within my major project, ‘My mind map, a neurological underpinning’, I have explored the cartography aspect, investigating cerebral and physical spaces and places, encouraging calm thoughts through artistic manifestations. I have been exploring the meaning of places that I find significant to me, the relevance of their calming aspects and their impact on my resilience to the stress of living with tics. The maps I cut tell a story of abstract metaphors of time spent, I see it as a form of meditation, a mode of expression.

£50

Contact: chelsea_rebecca_@outlook.com

**Entry 7**

Name: Emma Dorion

Title of work: ‘Nia’

Medium: Acrylic

Artist’s Statement:
I have focused my painting on people and the everyday. I stared at my sister brushing her teeth - a mundane chore - I wanted to capture a common everyday occurrence in all its beauty.

£70

Contact: emaeldorion@gmail.com

**Entry 8**

Name: Daisy Fisher

Title of work: ‘Hidden and Beautiful’

Medium: Printing

Artist’s Statement:
Why is it that when an artist looks at the natural world for inspiration they typically look at the conventionally beautiful aspects? Rather than appreciating all that nature provides us. Exploring the hidden beauty of nature, challenging the viewer to understand the constant link between nature and art, leaves became a focal point as each leaf is fascinating and has its own identity. This project sets out to appreciate what the natural world provides us with and, although we may focus on certain aesthetic values seen in nature, all aspects are to be viewed with the same attitudes.

£10 each print
Contact: daisyfisher03@gmail.com

**Entry 1**



## Entry 2




## Entry 3




**Entry 4**



**Entry 5**



## Entry 6



## Entry 7



**Entry 8**



***Ymgeisydd 1***

*Enw: Lesley Morris*

*Teitl y gwaith: 'Siarad, meddwl, breuddwydio, syllu'*

*Cyfrwng: Acrylig*

*Datganiad Artist:*
*Trwy hunanbortread, rwy'n archwilio realiti a chymhlethdodau fy myd mewnol. Mae hyn yn golygu turio o dan fy nghroen, gan geisio mynegi hanfod man sydd wedi bod yn ddihangfa a noddfa i mi erioed, rhywle lle rwyf bob amser wedi gallu bod yn 'fi fy hun'. Yn anochel, mae hyn wedi golygu tipyn o 'siarad, meddwl, breuddwydio a syllu' felly mae geiriau Osi'n taro tant mewn gwirionedd. Mae fy ngwaith diweddar wedi bod mewn siarcol a phrint ond mae defnydd mynych Osi o Las Cobalt wedi gwneud argraff fawr arnaf. Mae wedi fy atgoffa am y fath liw anhygoel ydyw ac wedi fy nhemtio i arbrofi ag ef.*

*Nid yw'r gwaith ar werth.*

*Cyswllt ar gyfer Lesley: [lellym51@gmail.com](mailto:lellym51@gmail.com)*

***Ymgeisydd 2***

*Enw: Laluna Dale-Thomas*

*Teitl y gwaith: ‘おいしそう’ (oishi sou), ‘mae’n edrych yn flasus’*

*Cyfrwng: Collage a chyfryngau cymysg*

*Datganiad Artist:*
*Mae fy narn yn ymwneud â chysylltu eto â’m hetifeddiaeth Japaneaidd. Un peth a oedd yn amlwg i mi oedd bod bwyd yn rhan fawr o ddiwylliannau gan fod llawer o ryseitiau wedi cael eu trosglwyddo trwy genedlaethau lawer. Mae bwyd yn dod â phobl ynghyd, mae’n cryfhau’r clymau rhwng unigolion, cymunedau a hyd yn oed gwledydd. Gall y rhwystr iaith rhyngof i a fy Nhaid a’m Nain fod yn anodd ond mae coginio gyda’n gilydd yn ein helpu i gysylltu heb fod angen geiriau. Es ati i greu’r llyfr hwn oherwydd roeddwn am gadw’r ryseitiau sydd wedi’u trosglwyddo i fy Mam yn ogystal â dogfennu ei siwrnai i Gymru.*

*Nid yw’r gwaith ar werth.*

*Cyswllt ar gyfer Laluna: [dt.laluna@gmail.com](mailto:dt.laluna@gmail.com)*

***Ymgeisydd 3***

*Enw: Cadi Vobe*

*Teitl y gwaith: ‘Hiraeth’*

*Cyfrwng: Cyfryngau cymysg ar bren haenog wedi’i dorri â laser*

*Datganiad Artist:*
*Mae ein hetifeddiaeth yn rhoi cliwiau i ni am ein gorffennol ac yn helpu dangos sut mae ein cymdeithas yn esblygu. Yn aml mae pobl yn canfod nad ydynt wedi cael digon o addysg am eu hetifeddiaeth (a minnau’n un ohonynt), gan ei gwneud yn siwrnai o hunanddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth bersonol. Roeddwn am gyfuno’r diriaethol a’r anniriaethol trwy’r pwnc hwn gan fy mod yn credu bod y ddau yr un mor bwysig. Mae’r diriaethol yn cynnwys gwrthrychau a etifeddwyd, tirweddau, gofodau a lleoedd sydd wedi bod yn bwysig ym magwraeth fy nheulu neu fy magwraeth fy hun. Mae’r anniriaethol hefyd yn tanio ein hetifeddiaeth ac yn y gofod hwn mae balchder a hiraeth. Yn ogystal mae’r gofod hwn yn cynnwys ymdeimlad o gymuned, y Gymraeg, traddodiadau a*

*gwybodaeth a drosglwyddwyd. O'u cyfuno, mae'r rhain yn tanio cymeriad, yn rhoi hynodrwydd i le, rhanbarth neu gymuned ac felly'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i ni.*

*Plât £25*
*Cwpanau £15 yr un*

*Cysylltwch â: [cadivobe@icloud.com](mailto:cadivobe@icloud.com)*

***Ymgeisydd 4***

*Enw: Tim Baynes*

*Teitl y gwaith: 'Y Llif Dyddiol'*

*Cyfrwng: Monobrint ar bapur Hosho*

*Datganiad Artist:*
*Mae Osi Rhys Osmond yn sôn am wlad 'nad yw'n dir, aer na dŵr ond yn gyfuniad o'r tri' *. Gwlad yr Aber, gyda'i symudiadau parhaus yw'r ysgogiad i greu. Byd a rennir gan Lansteffan a Thalacharn.*

*Yr un yw'r gair Groeg am luniadu ac ysgrifennu - graphe. Yn ddiweddar caniataodd Hilary i mi blymio i'w lyfrau braslunio. Wedi'i ysbrydoli gan gyfuniad Osi o luniau a geiriau, mae fy ngwaith, rwy'n gobeithio, yn tystio i gariad dwfn a dymuniad i ddathlu. Byddai'n wyth deg oed eleni, ar y pentiroedd o hyd gyda brwsh a phaent, ei linell gên yn benderfynol ac egnïol.*

- *Yn ffilm Clare Sturges' My Brief Eternity sy'n dogfennu creu darn gwaith olaf Osi Rhys Osmond, crewyd ar gyfer elusen ganser Maggie's.*

*£75*

*Cysylltwch â: [timbayneslond@gmail.com](mailto:timbayneslond@gmail.com)*

***Ymgeisydd 5***

*Enw: Ryan Anthony Woods*

*Teitl y gwaith: 'Ffantasi o realiti I'*

*Cyfrwng: Ffotograffiaeth ddigidol*

*Datganiad Artist:*
*Teitl fy mhrosiect blwyddyn olaf yw 'Womanface'. Mae'r prosiect yn ymwneud ag archwilio fy mhersona arall fel menyw, ymgysylltu â'm hochr fenywaidd er mwyn darparu dealltwriaeth ddyfnach o pam rydyn ni, fel cymdeithas, yn gyfyngedig i'r rhywedd a bennir i ni pan cawn ein geni. Mae diddordeb gen i yn y cyfyngiad a roddir gan gymdeithas ar rywiau gwryw, benyw ac eraill i ymddwyn a dangos eu hunain mewn ffordd benodol.*

*Nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r hidlydd cymdeithasol hwn a hyrwyddo'r ffaith y dylai pawb, waeth beth fo'u rhyw, fod yn rhydd i wisgo fel y mynnent - heb gael eu gwawdio, eu poenydio neu ddioddef casineb atynt.*

*'Rwy'n dwlu gwisgo i fyny ym mhob peth dydy dyn ddim bod i fod. Yn yr holl bethau hyglwyf hynny. Tiriondeb. Mursendod ac anymarferoldeb' Grayson Perry*

*£95*

*Cysylltwch â: ryan.woods501@gmail.com*

***Ymgeisydd 6***

*Enw: Chelsea Reilly*

*Teitl y gwaith: 'Fy map meddwl, tanategiad niwrolegol'*

*Cyfrwng: Darluniad toriad papur â llaw*

*Datganiad Artist:*
*O fewn fy mhrosiect mawr, 'Fy map meddwl, tanategiad niwrolegol', rwyf wedi archwilio'r agwedd gartograffeg, gan ymchwilio i ofodau a lleoedd ymenyddol a chorfforol, ac annog meddyliau tawel trwy amlygiadau artistig. Rwyf wedi bod yn archwilio ystyr lleoedd sy'n arwyddocaol i mi, perthnasedd eu hagweddau tawelol a'u*

*heffaith ar fy ngwytnwch i'r straen o fyw gyda thiciau. Mae'r mapiau rwy'n eu torri yn dweud stori am drosiadau haniaethol amser a dreuliwyd, rwy'n ei weld fel math o fyfyrdod, modd o fynegiant*

*£50*

*Cysylltwch â: chelsea_rebecca_@outlook.com*

***Ymgeisydd 7***

*Enw: Emma Dorion*

*Teitl y gwaith: 'Nia'*

*Cyfrwng: Acrylig*

*Datganiad Artist:*
*Rwyf wedi ffocysu fy mhaentiad ar bobl a phethau bob dydd. Syllais ar fy chwaer yn brwsio ei dannedd - tasg gyffredin - roeddwn i am gipio digwyddiad beunyddiol cyffredin yn ei holl brydferthwch.*

*£70*

*Cysylltwch ag: emaeldorion@gmail.com*

***Ymgeisydd 8***

*Enw: Daisy Fisher*

*Teitl y gwaith: 'Cuddiedig a Hardd'*

*Cyfrwng: Printio*

*Datganiad Artist:*
*Pam ydy e bod artist pan fydd yn edrych ar y byd naturiol am ysbrydoliaeth yn edrych fel arfer ar yr agweddau sy'n gonfensiynol hardd? Yn hytrach na gwerthfawrogi popeth y mae natur yn darparu i ni. Trwy archwilio harddwch cuddiedig natur, herio'r gwyliwr i*

*ddeall y cyswllt cyson rhwng natur a chelf, bydd dail yn dod yn bwynt ffocws gan fod pob deilen yn hynod ddiddorol ac yn meddu ar ei hunaniaeth ei hun. Bwriad y prosiect hwn yw gwerthfawrogi'r hyn y mae'r byd naturiol yn darparu i ni ac, er ein bod efallai'n canolbwyntio ar werthoedd esthetig penodol a welir mewn natur, dylid gwylio'r holl agweddau gyda'r un dulliau o feddwl.*

*£10 bob print*

*Cysylltwch â: daisyfisher03@gmail.com*